

Hysbysiad Prosesu Teg - Trwyddedu

Hysbysiad Preifatrwydd Trwyddedu

Mae'r Tîm Trwyddedu wedi ymrwymo i amddiffyn a pharchu eich preifatrwydd pan ddefnyddiwch ein gwasanaethau. Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn nodi sut a phryd y byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch pan ddefnyddiwch ein gwasanaethau, yr amodau y gallwn ei datgelu i eraill a sut yr ydym yn ei chadw'n ddiogel.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni i gael mynediad at ein gwasanaethau, gwneud cais am drwydded, cofrestriad neu hawlen neu pan fyddwn yn cysylltu â chi fel rhan o ymchwiliad, efallai y byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol benodol er mwyn gallu eich cynorthwyo gyda'ch ymholiad neu i'n galluogi i wneud hynny er mwyn ymchwilio'n llawn. Bydd peth o'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i storio ar ein systemau. Mae prosesu eich data o dan Erthygl 6 y RhDDC sef "Amodau Prosesu Data" yn digwydd oherwydd

- Bod gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny o dan y statud perthnasol a,
- Oherwydd ei bod yn angenrheidiol i gyflawni'r dasg hon wneud hynny.

Rydym hefyd yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau mewn perthynas ag Erthygl 10 a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r gwasanaethau a gynigiwn yn cynnwys y canlynol:

- Trwyddedau Cerbydau Hacni (taxis) a Thrwyddedau Llogi Preifat
- Trwyddedau, hawlenni a hysbysiadau alcohol ac adloniant
- Trwyddedau, hawlenni a hysbysiadau hapchwarae
- Trwyddedau a hawlenni casgliadau elusenol
- Trwyddedau tân gwyllt
- Trwyddedau petroliwm
- Trwyddedau Deliw'r Metel Sgrap
- Sefydliadau rhyw a thrwyddedau lleoliadau adloniant rhywiol
- Cofrestriadau hypnotiaeth llwyfan
- Caniatâd i fasnachu ar y stryd

- Cofrestriadau Tatŵo, Tyllu Cosmetig, Aciwbigo, Electrolysis
- Trwyddedu Anifeiliaid
- Cymeradwyo lleoliadau ar gyfer Priodas a Phartneriaethau Sifil
- Llongau Pleser

Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu amdanoch chi?

Pan fyddwch yn gwneud cais am drwydded, cofrestriad neu hawlen mae angen ystod o fanylion arnom gan gynnwys enw, manylion cyswllt, fel eich cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Mewn rhai achosion, rydym hefyd yn gofyn am rif yswiriant gwladol, manylion geni, manylion cyfrif banc (delwyr metel sgrap), hanes cyfeiriad, cyflogwr presennol a hanes cyflogaeth. Os dewiswch beidio â chyflwyno'r wybodaeth ofynnol ni fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r cais.

Os gwnewch sylwadau ar gais trwyddedu, adolygiad neu fater trwyddedu arall, bydd y Cyngor yn casglu gwybodaeth amdanoch chi gan gynnwys eich enw, manylion cyswllt, fel eich cyfeiriad e-bost cyfeiriad a'ch rhif ffôn. Byddwn hefyd yn casglu data personol y byddwch yn dewis ei gynnwys yn eich sylwadau.

Hawl i Weithio yn y DU

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr deiliaid trwydded personol a safle ac ymgeiswyr gyrrwr tacsï gyflwyno dogfennau i brofi bod ganddynt yr Hawl i Weithio yn y DU. Bydd y dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am genedligrwydd a phreswylfeydd.

Trwyddedu tacsï a deliwr metel sgrap

Er mwyn sicrhau y gellir ystyried bod ymgeiswyr yn addas a phriodol, mae angen cynnal gwiriadau cefndirol a gwneir cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am hanes euogfarnau troseddol pob ymgeisydd.

Trwyddedu tacsï

Mae angen asesiad meddygol hefyd gan Feddyg Teulu'r gyrrwr ymgeisydd a gall hyn gynnwys gwybodaeth bersonol ynghylch cyflyrau meddygol.

Byddwn yn casglu'r wybodaeth hon oherwydd ei bod er budd y cyhoedd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer diogelu'r cyhoedd. Os dewiswch beidio â chyflwyno'r wybodaeth ofynnol, ni fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r cais neu adnewyddu trwydded.

Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i brosesu ceisiadau, atgoffa trwyddedigion o adnewyddiadau ac ymchwilio i gwynion.

Os ydych wedi cyflwyno sylw ar gais trwyddedu, adolygiad neu fater trwyddedu arall, byddwn yn defnyddio'ch data personol wrth weinyddu'r mater hwnnw.

Gellir cynnwys eich data personol yn nogfennaeth y Pwyllgor cyhoeddus pan fo hynny'n ofynnol yn unol â'r gyfraith a / neu weithdrefnau'r Cyngor.

Er mwyn sicrhau'r hawl i gael gwrandawriad teg, rhaid i'r Cyngor hefyd gyflwyno manylion y sylwadau i'r ymgeisydd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn mabwysiadu canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â datgelu manylion personol unigolion sy'n cyflwyno sylwadau ac mewn amgylchiadau eithriadol, ac ar gais ysgrifenedig, gellir atal rhywfaint neu'r cyfan o'r manylion personol rhag cael eu cyflwyno neu eu cyhoeddi.

Dylech sicrhau nad oes unrhyw sylwadau na safbwyntiau difenwol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau.

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol am berson arall (gan gynnwys aelodau o'r teulu) oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi cydsynio a'ch bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth o'r caniatâd hwn.

Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth at unrhyw ddibenion marchnata.

Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn mentrau atal a chanfod twyll cenedlaethol a lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor amddiffyn yr arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu. Gall rannu gwybodaeth a gyflwynir iddo â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio, gweinyddu arian cyhoeddus, neu wrth gyflawni swyddogaeth gyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll.

Sut ydyn ni'n storio'ch gwybodaeth, ac am ba hyd?

Mae'r wybodaeth a gasglwn yn cael ei storio'n ofalus yn electronig.

Byddwn yn cadw ffurflenni cais wedi'u cwblhau a dogfennau ategol yn ystod oes y drwydded. Ar ôl i'r drwydded ddod i ben, ei hildio neu ei dirymu, cedwir hi yn unol â pholisi cadw'r Cyngor.

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Privacy-and-Data-Protection/Retention-Schedule-March-2017.pdf>

Bydd sylwadau a wneir ar gais trwyddedu, adolygiad neu fater trwyddedu arall, yn cael eu cadw am oes y drwydded.

Pan gynhelir gwrandawriad cyhoeddus mewn perthynas â chais neu sylw a wnaethoch, bydd eich data personol yn cael ei gynnwys yn nogfennaeth berthnasol y Pwyllgor a'i gadw am byth.

Pryd a pham rydyn ni'n rhannu'ch gwybodaeth

Nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw un arall oni bai bod gofyn i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith neu ei bod yn angenrheidiol i ddarparu ein gwasanaethau i chi.

Er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi rhai manylion sy'n ymwneud â cheisiadau a thrwyddedau ar ffurf cofrestr gyhoeddus a allai fod ar gael ar y rhyngrwyd hefyd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi cofrestr o enwau a rhifau cofrestru cerbydau y cerbydau hynny sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae yna broses statudol ar gyfer apelio i gael eich cynnwys yn y gofrestr hon. Byddwn hefyd yn rhyddhau rhifau cofrestru cerbydau pan fydd y rhain yn rhan o geisiadau rhyddid gwybodaeth.

Isod mae rhestr o'r sawl y gallwn rannu eich gwybodaeth â hwy:

Wedi'i rannu â gwasanaethau* Cyflawnir rhai swyddogaethau ar ran Cyngor Bro Morgannwg gan y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir	Beth a pham
Iechyd a Diogelwch	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau

	deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.
Cynllunio	Efallai y bydd angen i ni drosglwyddo gwybodaeth, er enghraifft mewn perthynas â busnes newydd, pan fo goblygiadau o ran cynllunio. Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Deddfau hynny.
Diogelu	<p>Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Deddfau hynny.</p> <p>Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth mewn perthynas â meysydd trwyddedu eraill pan fo pryder diogelu dilys.</p>
Iechyd yr Amgylchedd	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Deddfau hynny.
Safonau Masnach	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.

Gwasanaethau Cyfreithiol	Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaethau cyfreithiol i gael cyngor os ydym yn ystyried rhoi camau cyfreithiol ar waith.
Tîm diogelwch bwyd	Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth am adeiladau trwyddedig i gynorthwyo'r tîm gydag ymchwiliad.
Allanol	
Tân ac Achub	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddfau hynny.
Iechyd y Cyhoedd	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.
Yr Heddlu	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddfau hynny. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth trwyddedai i gynorthwyo gyda diogelu'r cyhoedd.
Y Swyddfa Gartref	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau

	<p>deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.</p> <p>Sicrhau bod gan ymgeiswyr yr Hawl i weithio yn y DU.</p>
Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.
CThEM	<p>Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.</p> <p>Darperir data personol hefyd pan fydd yn ofynnol o dan Ddeddf Cyllid 2011.</p>
Y Comisiwn Gamblo	Fel Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Gamblo 2005, bydd ceisiadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu i sicrhau bod y rhwymedigaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflawni o dan y Ddeddf.
DEFRA	Darperir copïau o geisiadau sw a gwneir trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau.
Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd	Darperir manylion Delwyr Metel Sgrap ar gyfer y gofrestr. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am ddelwyr trwyddedig i gynorthwyo gydag unrhyw ymchwiliadau.

Milfeddyg enwebedig	Darperir copïau o geisiadau lles anifeiliaid a gwneir trefniadau ar gyfer archwiliadau.
Awdurdodau Lleol eraill a chyrrff cyhoeddus	Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag awdurdodau lleol eraill neu gyrff cyhoeddus fel yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Manylion personol a gyflwynwyd ar ffurflenni cais y Gwasanaeth o ran euogfarn droseddol - gyrwyr, deliwr metel sgrap ac ymgeiswyr deiliad trwydded bersonol.
Pobl eraill	Pan gynhelir gwrandawriad cyhoeddus mewn perthynas â chais neu sylw a wnaethoch, bydd eich data personol yn cael ei gynnwys yn nogfennaeth berthnasol y Pwyllgor a'i gyflwyno i bob parti arall mewn unrhyw wrandawriad yn unol â'r gyfraith. Cyhoeddir dogfennau'r Pwyllgor ar wefan y Cyngor. Fel rheol, bydd rhifau ffôn personol, cyfeiriadau e-bost a llofnodion yn cael eu golygu.

Beth yw ein seiliau cyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth?

- Gyda'ch caniatâd; pan fo er budd y cyhoedd i wneud hynny;
- I gydymffurfio â gofyniad cyfreithiol - er enghraifft prosesu ceisiadau trwydded / cofrestru neu hawlen;
- Pan fo er budd cyfreithlon Cyngor Bro Morgannwg i wneud hynny; er enghraifft lle gallai fod risg i'r cyhoedd;
- Gyda'ch caniatâd penodol neu lle mae budd cyhoeddus sylweddol. Er enghraifft wrth ddelio â materion sensitif, megis materion meddygol neu ddiogelu.

Pan fyddwn yn dibynnu ar eich caniatâd neu gydsyniad penodol a'ch bod am dynnu'r caniatâd hwn yn ôl, gallwch wneud hynny trwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad uchod neu ar licensing@valeofglamorgan.gov.uk

Eich hawliau a sut i gysylltu â ni

Mae Polisi Hawliau Gwybodaeth y Cyngor yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/adult_and_community_learning/Vale-Courses/Website-privacy-notice.aspx

yn nodi'ch hawliau mewn perthynas â'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau i weld gwybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawliau eraill sydd gennych mewn perthynas â sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth.

- Yr hawl i gael eu hysbysu - Mae gan unigolion yr hawl i gael eu hysbysu am y gwaith o gasglu a defnyddio eu data personol. Mae hwn yn ofyniad tryloywder allweddol o dan y RhDDC.
- Yr hawl i fynediad - mae gennych hawl i ofyn am fynediad i wybodaeth sydd gennym amdanoch a chopi ohoni
- Yr hawl i gywiro - mae gennych hawl i ofyn am gywiro'ch gwybodaeth
- Efallai y bydd yr hawl i gyfyngu ar brosesu yn berthnasol - gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu'ch data personol, fodd bynnag, gallai hyn oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol
- Yr hawl i ddileu - nid yw hon yn hawl absoliwt
- Yr hawl i hygludedd data - nid yw hon yn hawl absoliwt

Yr hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd - sy'n cynhyrchu effeithiau cyfreithiol neu effeithiau tebyg yr un mor arwyddocaol i'r gwrthrych data

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod ond yn casglu gwybodaeth sydd ei hangen arnom, i ddarparu'r gwasanaethau y mae gennych hawl iddynt yn y ffordd orau bosibl. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â ni trwy e-

bost licensing@valeofglamorgan.gov.uk, neu ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri. Fel arall, gallwch gysylltu â FOIUnit@valeofglamorgan.gov.uk neu ffonio 01446 700111.

Os ydych chi'n poeni neu'n anhapus â'n defnydd o'ch gwybodaeth bersonol mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *<https://ico.org.uk>, e-bost: casework@ico.org.uk neu dros y ffôn: 0303 123 1113.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr o'r holl agweddau ar ein proses o gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen.

Mae copi o'r hysbysiad hwn ar gael yn Saesneg